

Arolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Cwm Cynon

Ward 7

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Morgannwg

Dyddiad arolygu: 13 – 15 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ebrill 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	27
4.	Beth nesaf?	32
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	33
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	35
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	42

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ward 7, Ysbyty Cwm Cynon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar noson 13 Ionawr 2020, a'r diwrnodau canlynol, sef 14 a 15 Ionawr.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd o AGIC, dau adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom grŵp ymrwymedig o staff a oedd yn sicrhau bod anghenion gofal sylfaenol y cleifion yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, gellid gwneud gwelliannau er mwyn helpu'r staff i roi mwy o ofal unigol i'r cleifion.

Mae angen gwella'r ffordd y caiff cofnodion clinigol eu cwblhau er mwyn nodi manylion y gofal sy'n cael ei ddarparu ac adolygiadau dilynol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisïau yn cael eu hadolygu a'u bod yn gyfredol er mwyn rhoi arweiniad i'r staff mewn perthynas â'u harferion proffesiynol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Amrywiaeth o fentrau gofal dementia
- Gofalu am anghenion iechyd corfforol y cleifion a risgiau unigol
- Rhoi Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Yr amrywiaeth o wybodaeth a dulliau cyfathrebu sy'n addas i gleifion sydd â dementia a'u teuluoedd
- Yr amgylchedd gofal er mwyn ymgorffori mentrau gofal dementia ymhellach
- Cwblhau cofnodion clinigol yn ddigon manwl
- Gwreiddio archwiliadau clinigol er mwyn gwella a monitro'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol
- Dysgu ar y cyd a chyflawni ymrwymadau yn dilyn canlyniadau arolygiadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ward 7 yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG i bobl hŷn yn Ysbyty Cwm Cynon, New Road, Aberpennar, CF45 4BZ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae gan y ward, sy'n ward iechyd meddwl organig¹ rhyw gymysg, 15 o welyau. Ar adeg yr arolygiad, roedd 15 o gleifion yn derbyn gofal ar y ward.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward, dirprwy reolwr y ward a thîm o nyrsys cofrestredig, cynorthwyyr gofal iechyd a chynorthwyydd therapi galwedigaethol.

Cefnogir y ward gan strwythurau clinigol a gweinyddol y bwrdd iechyd.

¹ Anhwylder meddyliol organig yw camweithrediad o'r ymennydd a all fod yn barhaol neu dros dro. Mae'n disgrifio gweithrediad llai yr ymennydd oherwydd mathau o salwch nad ydynt o natur seiciatrïg. Anhwylderau meddyliol organig yw cynnwrf a all gael ei achosi gan anaf neu glefyd sy'n effeithio ar feinwe'r ymennydd yn ogystal ag abnormaleddau cemegol neu hormonaidd. Gall amlygiad i ddeunyddiau gwenwynig, nam niwrolegol, neu newidiadau abnormal sy'n gysylltiedig â heneiddio hefyd achosi'r anhwylderau hyn.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff yn wybodus am bob claf ac yn ymdrechu i ddarparu gofal unigol.

Roedd pwyslais ar ddarparu gofal mewn amgylchedd addas a oedd yn ystyriol o ddementia, ac roedd rhai mentrau cadarnhaol ar waith. Fodd bynnag, gellir gwneud rhagor o welliannau i amgylchedd y ward er mwyn sicrhau ei fod yn fwy ystyriol o ddementia, ar gyfer y grŵp cleifion yn ei gyfanrwydd ac ar gyfer pob claf unigol.

Cadw'n iach

Dengys cofnodion cleifion fod trefniadau monitro iechyd corfforol priodol ar waith a bod gofal yn cael ei roi i'r cleifion ar sail unigol.

Roedd gan y ward gynorthwydd therapi galwedigaethol llawn amser dynodedig a oedd yn helpu i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a therapïau ar y ward. Roedd mewnbwn hefyd gan weithwyr proffesiynol eraill ym meysydd therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, deieteg a therapi lleferydd ac iaith, yn dibynnu ar anghenion y cleifion unigol.

Roedd ffolder "Dyma fi"² yn cael ei chadw ar y ward er mwyn rhoi gwybodaeth hygyrch i'r staff am bob claf a helpu i wella'r gofal a'r cymorth a roddir tra bod yr unigolyn yn yr ysbyty. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer pump o'r 15 claf y gwelwyd copiâu wedi'u cwblhau yn y ffeil. Yn ystod y sesiwn adborth ar yr arolygiad,

² Taflen syml yw "Dyma fi" ar gyfer unrhyw un sy'n derbyn gofal proffesiynol ac sy'n byw gyda dementia. Gellir gweld enghraifft yn <https://www.alzheimers.org.uk/get-support/publications-factsheets/this-is-me>

cawsom wybod bod y staff hefyd yn gallu gweld fersiwn electronig. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y ffordd orau o gasglu'r wybodaeth hon a ph'un a ddylid arddangos detholiad o'r wybodaeth hon yn ystafell wely unigol y claf, yn ogystal â'r bwrdd sy'n nodi gwybodaeth allweddol am y claf. Roedd y bwrdd hwn yn nodi'r cymorth yr oedd ei angen ar y claf o ran gofal personol a bwyd, ei grefydd, p'un a oeddent yn siarad Cymraeg a'i statws Peidiwch â Dadebru.

Roedd arwydd wrth fynd i mewn i'r ward a oedd yn annog aelodau o'r teulu i ddod ag eitemau personol i mewn er mwyn helpu i wneud ystafelloedd gwely yn fwy cartrefol. Nododd y staff fod hyn yn cael ei drafod ag aelodau o'r teulu hefyd. Fodd bynnag, er bod gan rai o'r cleifion ddetholiad o ffotograffau personol yn eu hystafell wely, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid ymgorffori gwybodaeth "Dyma fi" pob claf ymhellach yn ei ystafell wely er mwyn helpu i ysgogi atgofion a chynorthwyo â therapi atgofion³ tra bod y staff yn gofalu amdano ac yn ei helpu yn ei ystafell wely.

Roedd gan y ward fynediad i gyfleusterau ac offer, gan gynnwys technoleg gynorthwyol, er mwyn helpu unigolion a grwpiau i hel atgofion. Roedd hyn yn cynnwys gofod therapiwtig ar gyfer hel atgofion, fel y siop losin a'r ystafell synhwyraidd ar y ward, sy'n cynnwys eitemau ac offer ar gyfer ysgogi atgofion. Roedd detholiad o eitemau eraill ar gael i gynorthwyo â gweithgareddau ad-hoc neu strwythuredig fel doliau empathi, bwrdd ffidlan ar y wal a dyfeisiau electronig. Yn siomedig ddigon, er i ni arsylwi ar rai gweithgareddau yn cael eu cynnal ar y ward, roedd yn ymddangos bod rhai o'r adnoddau hyn yn cael eu tanddefnyddio yn ystod ein harolygiad.

Er bod y ward wedi'i chynnal a'i chadw a'i haddurno mewn modd dymunol, byddai'n fuddiol gwneud gwaith addurno pellach er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gofal yn fwy ystyriol o ddementia. Gallai hyn gynnwys arwyddion priodol ar gyfer cleifion sydd â dementia ac amrywiaeth o luniau addas er mwyn helpu i ysgogi atgofion y cleifion a rhoi cyfle i gynnal therapi atgofion ad-hoc.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd hefyd fod y teledu yn y lolfa gymunedol yn dangos rhaglenni cyfredol a ddarlledir yn ystod y dydd yn bennaf nad oeddent wedi'u

³ Gall sesiynau atgofion fod yn allweddol i helpu pobl, yn enwedig y rheini sydd â Dementia, i gofio a rhannu eu hatgofion. Mae'r sesiynau hyn yn ei gwneud yn bosibl i bobl gyfathrebu a chymdeithasu wrth iddynt fyfyrir ar eu profiadau bywyd, a'u rhannu, mewn amgylchedd cefnogol.

hanelu fel arfer at y grŵp penodol o gleifion. Gellid defnyddio'r adnodd hwn yn well yn ystod y dydd er mwyn darparu rhaglenni, ffilmiau a cherddoriaeth fwy ystyrlon ar gyfer y grŵp cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am gleifion unigol yn cael ei chasglu a'i defnyddio er mwyn helpu'r staff i ymgysylltu â'r cleifion drwy hel atgofion ar sail strwythuredig ac ad-hoc.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu amgylchedd y ward ymhellach er mwyn helpu'r cleifion i hel atgofion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion a chymhorthion priodol sy'n ystyriol o ddementia ar y ward.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r grŵp cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau o ran darparu gweithgareddau ad-hoc i'r cleifion ac ymgysylltu â nhw.

Gofal ag urddas

Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr holl staff a welsom yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Roedd yn amlwg o'r sgysiau a gawsom â'r staff a'r modd yr oeddent yn rhyngweithio â'r cleifion eu bod yn wybodus iawn am bob claf unigol. Roedd hyn yn helpu'r staff i ddarparu gofal a chymorth personol i'r cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad, a gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch. Pan oedd y cleifion yn mynd at yr aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn rhoi lefel dda o breifatrwydd iddynt ac yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion. Roedd enw'r claf wedi'i ysgrifennu ar bob drws er mwyn helpu i nodi'r ystafell. Fodd bynnag, er y byddai rhai o'r cleifion yn gallu adnabod eu henw eu hunain, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid helpu'r cleifion ymhellach drwy ddarparu cymhorthion darluniadol neu ffotograffig y byddai'r claf unigol yn eu hadnabod. Roedd yn

gadarnhaol nodi bod cloc sy'n ystyriol o ddementia, sy'n helpu'r cleifion i wybod pa amser o'r dydd yw hi, ar gael ym mhob ystafell wely. Fel y nodwyd uchod, gellid sicrhau bod ystafelloedd gwely'r cleifion wedi'u teilwra hyd yn oed yn fwy at y cleifion er mwyn eu helpu i hel atgofion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid rhoi mwy o help i'r cleifion adnabod eu hystafelloedd gwely eu hunain.

Gwybodaeth i gleifion

Cawsom wybod, oherwydd gwaith ailaddurno diweddar ar y ward, fod nifer o fyrddau gwybodaeth wedi'u symud dros dro er mwyn caniatáu i'r gwaith gael ei gwblhau. Nid oedd pob un o'r byrddau gwybodaeth hyn wedi'u hailosod ar y waliau ar adeg yr arolygiad.

Roedd rhywfaint o wybodaeth am y ward yn cael ei harddangos fel amseroedd bwyd, oriau ymweld a lefelau staffio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth glir wedi'i harddangos ynghylch sut i roi adborth neu wneud cwyn, gan gynnwys proses Gweithio i Wella⁴ y GIG ar gyfer codi pryder.

Ar adeg yr arolygiad, roedd gwybodaeth wedi'i harddangos am wasanaethau eirioli sefydliadau allanol a'r cyngor iechyd cymuned. Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ein rôl na sut i gysylltu â ni.

Roedd gwybodaeth gyfyngedig am y Ddeddf Iechyd Meddwl, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gwybodaeth berthnasol arall am ofal a chymorth i gleifion sydd â dementia, materion eraill yn ymwneud ag iechyd meddwl, llesiant corfforol, a gwybodaeth am sefydliadau a all helpu'r cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

⁴ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon pan fydd rhywun yn anhapus â'r gwasanaethau a ddarperir gan GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Gwybodaeth ysgrifenedig oedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ac nid oedd llawer o luniau na chynnwys hawdd ei ddarllen a fyddai'n helpu'r cleifion i'w deall. Felly, er bod gwybodaeth yn cael ei harddangos, efallai nad yw'n cael ei chyflwyno mewn fformat sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth ymhlith rhai o'r cleifion neu aelodau o'r teulu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau, gan gynnwys:

- Sut i roi adborth ar y gwasanaeth, gan gynnwys proses Gweithio i Wella y GIG
- Arweiniad ar ddeddfwriaeth berthnasol fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn helpu i feithrin dealltwriaeth ymhlith rhai o'r cleifion neu aelodau o'r teulu.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd ati i adolygu fformat y wybodaeth a'r arwyddion sy'n cael eu harddangos er mwyn rhoi mwy o help i'r cleifion a'u teuluoedd.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth statudol a gwblhawyd ar gyfer Safonau Amddifadu o Ryddid a chawsom ei bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd tystiolaeth y gallai'r cleifion gael gafael ar wasanaethau eirioli ac y gallai'r staff eu hatgyfeirio at wasanaethau eirioli lle y bo'n briodol.

Roedd manau ar gael i'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat. Roedd trefniadau priodol ar waith hefyd i'r cleifion wneud galwadau ffôn preifat gan ddefnyddio eu ffôn symudol eu hunain neu ffôn y ward.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff ac aelodau o'r teulu yn ymgysylltu'n rheolaidd â'i gilydd drwy'r amser. Soniodd y staff am eu hymdrechion blaenorol i sefydlu grŵp gofalwyr. Fodd bynnag, roeddent wedi ei chael hi'n anodd sicrhau presenoldeb rheolaidd aelodau o'r teulu.

Caiff adborth ffurfiol gan y cleifion a'u teuluoedd ei fonitro fel rhan o drefniadau llywodraethu sy'n golygu bod modd cymharu a rhannu'r gwersi a ddysgir ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth iechyd meddwl. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth neu wneud cwyn.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd systemau a phrosesau diffiniedig ar waith er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Er bod y ward yn cael ei chynnal a'i chadw i safon dda ar y cyfan, nodwyd gennym fod nifer o feysydd lle roedd angen cymryd camau gweithredu. Roedd adran ystadau'r bwrdd iechyd wedi cael ei hysbysu am rai ohonynt eisoes ond nid oeddent wedi'u datrys o hyd.

Nodwyd gennym hefyd feysydd i'w gwella o ran arferion y staff, yn enwedig o ran cwblhau cofnodion clinigol i ddangos manylion y gofal sy'n cael ei ddarparu ac adolygiadau dilynol o ofal.

Mae angen cynnal archwiliadau o'r ystafell clinig er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau i'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu rheoli eu rhoi ar waith a'u monitro.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd modd cael mynediad i'r wardiau o faes parcio'r ysbyty, a oedd yn cynnig mynediad addas i bob ymwelydd. Roedd y ward wedi'i diogelu er mwyn atal mynediad anawdurdodedig; gallai'r staff gael mynediad i'r wardiau drwy ddefnyddio cardiau adnabod y bwrdd iechyd, ac roedd angen i'r ymwelwyr ddefnyddio'r intercom i gael mynediad i'r ward. Fodd bynnag, pan gyrhaeddodd aelodau o'r tîm arolygu heb rybudd ar y noson gyntaf, cawsant eu gadael drwy'r drysau cloëdig i'r ward heb i unrhyw un ofyn am brawf adnabod ganddynt. Mae'n rhaid i'r staff fod yn wylidwrus a chadarnhau manylion adnabod yr ymwelwyr cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r ward.

Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer o ystafelloedd a swyddfeydd nad ydynt yn agored i gleifion wedi cael eu gadael heb eu cloi pan nad oedd unrhyw un yn eu defnyddio. Roedd rhai o'r ardaloedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cleifion a'r staff y gallai'r cleifion neu'r ymwelwyr fod wedi'i gweld pe baent wedi mynd i

mewn i'r ardaloedd hyn. Nodwyd hefyd fod bwyd a diodydd yn un o'r ardaloedd y gallent fod wedi bod yn niweidiol i glaf sydd ag anawsterau llyncu pe bai wedi ceisio ei fwyta/eu hyfed. Mae angen i'r staff fod yn ystyriol a sicrhau bod ardaloedd nad ydynt yn agored i gleifion yn cael eu cadw dan glo pan na fydd unrhyw un yn eu defnyddio.

Roedd pwyntiau galw nyrsys o amgylch y wardiau, gan gynnwys yn ystafelloedd gwely'r cleifion. Fodd bynnag, roedd lleoliad y gwely yn rhai o'r ystafelloedd gwely yn golygu na fyddai'n hawdd i'r claf actifadu'r gloch galw yn hawdd pe bai angen cymorth arno. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â staff y ward ac uwch-reolwyr ynglŷn â'r trefniadau hyn. Mewn nifer o achosion lle'r oedd y gwely wedi'i leoli i ffwrdd oddi wrth y gloch galw, eglurwyd mai'r rheswm am hynny oedd er mwyn atal risgiau eraill, megis y risg o gwympto, a/neu oherwydd na fyddai'r claf yn gallu actifadu'r gloch galw pe bai angen iddo wneud hynny er mwyn hysbysu'r staff. Fodd bynnag, nid oedd y rheswm dros ail-leoli'r gwely na'r ffordd yr oedd y staff yn lliniaru'r risg na fyddai'r claf yn gallu actifadu cloch galw, wedi'i nodi yng nghofnodion cleifion. Mae angen i hyn gael ei ddogfennu er mwyn nodi'n glir sut mae diogelwch y cleifion yn cael ei fonitro oherwydd newidiadau yng nghynllun eu hystafell wely neu eu hanallu i hysbysu'r staff.

Nodwyd hefyd fod cortyn tynnu'r nyrsys wedi cael ei glymu i fyny mewn rhai toiledau ac ystafelloedd ymolchi a oedd yn golygu y byddai'n anodd, os nad yn amhosibl, ei gyrraedd. Unwaith eto, trafodwyd hyn â staff y ward ac uwch-reolwyr. Eglurwyd bod cleifion yn cael eu cefnogi gan staff yn yr ardaloedd hyn yn gyffredinol ac felly na fyddent yn cael eu hactifadu gan glaf. Fodd bynnag, pe bai claf yn derbyn gofal ar y ward ac yn mynd i mewn i'r ardaloedd hyn yn annibynnol, ni fyddai'n gallu actifadu'r cortyn tynnu. Cydnabyddir y gall cortynnau tynnu beri risg o niwed. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau bod modd eu defnyddio. Os oes pryderon ynghylch diogelwch cleifion, yna mae'n rhaid gosod dyfais amgen neu reoli'r risg ar sail cleifion unigol.

Roedd dyddiadau Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) nifer fawr o eitemau trydanol cludadwy wedi mynd heibio. Nododd Asesiad Risg Tân y ward, a gwblhawyd ym mis Hydref 2019, fod angen i Bennaeth Ystadau'r bwrdd iechyd gymryd camau gweithredu "cyn gynted ag y bo'n ymarferol rhesymol", ond nid oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd. Felly, ni allem fod yn sicr bod yr holl gyfarpar trydanol ar Ward 7 yn ddiogel i'w ddefnyddio ac nad oedd rhai o'r eitemau yn peri risg o dân trydanol. Roedd hyn yn risg ddiogelwch sylweddol i'r cleifion, y staff ac unigolion eraill ar Ward 7 ac yn yr ysbyty. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y lleoliad yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B, a roddodd sicrwydd bod y mater hwn wedi'i ddatrys.

Er bod y ward yn cael ei chynnal a'i chadw i safon dda ar y cyfan, yn ystod yr arolygiad nodwyd bod nifer o feysydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Aethpwyd i'r afael ag un mater a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad. Cyn yr arolygiad, roedd y gorchudd meddal wedi'i symud o ardal eistedd. Fodd bynnag, roedd hyn wedi gadael cornel galed lle'r oedd y seddi wedi bod a oedd yn peri risg o anaf i rywun pe baent yn cwmpo arni. Cymerodd tîm ystadau'r bwrdd iechyd gamau unioni i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae angen rhoi gorchudd meddal yn ôl er mwyn adfer yr ardal eistedd.

Roedd angen atgyweirio rhai o'r dyfeisiau diogelu bysedd hefyd ar gyfer y drysau. Roedd nifer ohonynt ar y ward wedi rhwygo ac ni allent roi digon o ddiogelwch mwyach rhag anaf. Roedd difrod hefyd i'r wal yn y gawod i ddynion y mae angen mynd i'r afael ag ef.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX) a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Wrth edrych ar y cofnodion, roedd tystiolaeth bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd ar y cyfan. Fodd bynnag, yn nodiadau un claf, nodwyd bod anaf wedi digwydd ond nad oedd y rheswm yn hysbys. Nid oedd cofnodion y claf yn nodi pa gamau pellach a gymerwyd, os o gwbl. Nid oedd unrhyw gofnod ychwaith o'r anaf ar DATIX er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei adolygu mewn modd amserol. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadarnhau manylion adnabod ymwelwyr cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r ward.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwneud yn siŵr bod ardaloedd nad ydynt yn agored i gleifion yn cael eu cadw dan glo.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rheswm dros ail-leoli gwelyau yn cael ei ddogfennu'n glir.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan na fydd claf yn gallu defnyddio cloch galw nyrs yn ei ystafell wely, fod cynllun gofal ar waith i nodi'n glir y trefniadau sydd ar waith i fonitro'r claf yn ei ystafell wely.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r systemau sydd ar waith sy'n galluogi'r cleifion i alw am gymorth o'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ac nad ydynt yn peri risg o hunan-niwed.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gorchudd seddi meddal yn cael ei roi'n ôl ar yr ardal eistedd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddyfeisiau diogelu bysedd a ddefnyddir ar y drysau yn gyfan.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio'r difrod i'r wal yn yr ystafell gawod i ddynton.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau priodol ar waith i reoli'r broses o atal a rheoli heintiau'n ddiogel.

Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd archwiliad rheolaidd o reoli heintiau ar waith. Roedd hyn yn cael ei gwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd yr ysbyty yn ymddangos yn lân. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r ystafelloedd ar y ward yn anniben neu'n cael eu defnyddio i storio eitemau y dylent fod wedi cael eu symud o'r ward.

Cawsom wybod bod cais wedi'i wneud i newid yr ystafell archwilio ar y ward yn ystafell storio. Nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd eitemau yn cael eu storio dros dro yn yr ystafell a oedd yn anniben hefyd.

Roedd ail wely a throli porthor yn cael eu storio yn ystafell wely un o'r cleifion hefyd. Roedd angen symud y rhain gan na ddylent gael eu gadael yn ystafell wely claf.

Roedd arogl annymunol yn dod o'r toiled en-suite yn ystafell wely un o'r cleifion eraill. Cawsom wybod bod hyn wedi cael ei gofnodi a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i geisio cael gwared ar yr arogl. Er i ni gael sicrwydd bod y bwrdd iechyd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r broblem, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau pellach i gael gwared ar yr arogl os bydd y broblem yn parhau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gyfer atal a rheoli heintiau a diheintio ar gael i'r staff yn ôl yr angen. Ar y cyfan, roedd y cyfarpar hwn wedi'i leoli'n briodol ym mhob rhan o'r ward. Fodd bynnag, nid oedd ffedogau diogelwch ar gael i'r staff eu defnyddio bob amser yn ardal toiledau'r ward, dim ond menyg. Felly, pe bai angen ffedogau, byddai'n rhaid i'r staff adael yr ardal honno i fynd i ôl ffedogau sy'n cynyddu'r risg o halogi.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn rhannau perthnasol o'r ward. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion wedi'u gosod bob amser yn dangos sut i olchi dwylo yn briodol.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fannau storio ar gael ar y ward.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol angenrheidiol ar gael ym mhob ardal berthnasol o'r ward.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion atal a rheoli heintiau ym mhob ardal berthnasol o'r ward.

Maeth a hydradu

Roedd y cofnodion gofal yr edrychwyd arnynt yn dangos bod asesiadau o anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi'u cwblhau. Pan oedd angen, gofynnwyd am fewnbwn gan ddeietegwyr a thîm lleferydd ac iaith.

Roedd cofnodion cleifion yn nodi anghenion deietegol unigol penodol ar gyfer sicrhau bod y cleifion yn cael digon o faeth a hylifau, ac roedd y ddogfennaeth monitro yr edrychwyd arni wedi'i chwblhau'n briodol.

Roedd y cofnodion hefyd yn nodi p'un a oedd angen i'r claf gael cymorth gan y staff. Roedd y ward yn gallu cael gafael ar gyfarpar arbenigol megis cyllyll a ffyr

a llestri wedi'u haddasu, matiau bwrdd gwrthlithro a giardiaau platiau y gallai'r cleifion eu defnyddio i'w helpu i fod yn annibynnol.

Gwelsom fod y staff yn gefnogol ac yn ofalgar wrth helpu'r cleifion gyda'u prydau. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn mynd ati i arsylwi ar y cleifion hynny a oedd yn fwy annibynnol adeg prydau bwyd ac yn eu hannog i gwblhau eu prydau a'u diodydd.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod aelodau o'r teulu yn gallu bod yno adeg prydau bwyd i fod yn gwmni i'w perthynas neu ei helpu. Roedd gan y ward amseroedd bwyd a ddiogelir, sy'n golygu nad oes unrhyw darfu ar y cleifion yn ystod eu prydau am resymau clinigol a all aros nes bod y claf wedi gorffen ei fwyd. Mae hyn yn helpu staff y ward i sicrhau bod y cleifion yn cael digon o faeth a hylifau ar yr adegau cywir.

Cymysg fu'r farn a gawsom gan y cleifion a'u perthnasau yn ystod yr arolygiad. Roedd y bwyd yr arsylwyd arno'n cael ei weini yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn addas ac roedd opsiynau ar gael i ddarparu ar gyfer chwaethau gwahanol. Fodd bynnag, dim ond ar ffurf ysgrifenedig yr oedd bwydlen y ward ar gael, ac nid oedd gan y staff unrhyw gymhorthion darluniadol na ffotograffig i helpu'r cleifion gyda'u dewisiadau.

Nododd y staff y byddent hefyd yn trafod dewisiadau bwyd ag aelodau o'r teulu pan fyddai'r cleifion yn cyrraedd y ward ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i lywio'r dewisiadau a wnaed adeg prydau bwyd.

Gwelsom fod y cleifion yn cael diodydd drwy gydol y dydd, ac roedd y bae diodydd yr oedd staff yn ei gyrchu ar gyfer y cleifion yn helpu yn hyn o beth. Roedd byrbrydau ar gael drwy gydol y dydd hefyd. Yn ogystal, roedd aelodau o'r teulu yn gallu dod ag eitemau o fwyd i mewn ar gyfer eu perthnasau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa gymhorthion y gellir eu defnyddio i helpu'r cleifion gyda'u dewisiadau bwyd.

Rheoli meddyginiaethau

Nodwyd bod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd yr ystafell clinig yn cael ei chloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, yn yr un modd â chypyrddau meddyginiaeth. Roedd y trolïau meddyginiaeth hefyd yn sownd i'r ystafell clinig, er mwyn atal rhywun heb awdurdod rhag eu symud. Roedd y

cwprdd cyffuriau a reolir a'r oergell feddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei fonitro a'u gofnodi'n gyson er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio o fewn yr ystod tymheredd briodol. Roedd thermomedr yn yr ystafell clinig i fesur y tymheredd amgylchol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod bod hyn yn cael ei fonitro a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd pe bai'r tymheredd yn uwch na'r terfyn tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr, sef 25 gradd Celsius, er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn parhau'n addas i'w defnyddio.

Roedd gwiriadau rheolaidd o'r stoc o feddyginiaeth, gan gynnwys Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all gael eu Camddefnyddio, er mwyn sicrhau bod y symiau cywir yn bresennol. Fodd bynnag, cawsom wybod bod y stoc o Gyffuriau a Reolir hylifol yn cael ei hamcangyfrif drwy edrych ar y feddyginiaeth yn unig ac nad yw'r cyffuriau yn cael eu mesur yn rheolaidd. Argymhellir y dylid mesur Cyffuriau a Reolir hylifol yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir rhoi cyfrif am yr holl stoc ac, os oes meddyginiaeth na ellir rhoi cyfrif amdani, y gellir nodi'n brydlon pryd y digwyddodd hynny o fewn ystod dyddiadau penodedig.

Edrychwyd ar siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth⁵ (MAR) a oedd yn weithredol ar gyfer pob un o'r cleifion ar y ward. Er i ni weld bod y cofnodion rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau ar y cyfan, nodwyd rhai achlysuron prin pan roedd blwch gwag yn erbyn y feddyginiaeth seiciatrig. Felly, nid oedd yn amlwg a oedd y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi ai peidio, ac os nad oedd wedi cael ei rhoi, nid oedd y rheswm pam nad oedd y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi wedi'i gofnodi, fel sy'n ofynnol wrth ddefnyddio siart Meddyginiaeth Cymru Gyfan.

⁵ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Nodwyd hefyd fod manylion personol gofynnol wedi'u hepgor o siartiau MAR rhai o'r cleifion, gan gynnwys alergeddau, statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, pwysau, taldra a mynegai mas y corff (BMI)⁶.

Lle'r oedd y cleifion yn cael meddyginiaeth gudd, roedd y cofnodion yn nodi pam roedd hyn yn briodol a chyfranogiad aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac aelodau o'r teulu yn y broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd polisi meddyginiaeth gudd y bwrdd iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad adolygu. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y staff yn cael y canllawiau mwyaf cyfredol i lywio eu hymarfer proffesiynol.

Roedd siartiau MAR yn cofnodi bod meddyginiaeth PRN⁷ yn cael ei rhoi. Roedd cofnod hefyd yng nghofnodion cleifion fod meddyginiaeth PRN wedi cael ei rhoi a'r rheswm pam. Roedd y defnydd o feddyginiaeth PRN yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd y cyfarpar dadebru yn cael ei wirio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar cywir ar gael ac o fewn ei ddyddiad defnyddio.

Nodwyd nad oedd unrhyw amserlen archwiliadau ar waith ar gyfer yr ystafell clinig i fonitro arferion staff a'r gwaith cyffredinol o gynnal a chadw'r ardal. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr ystafell clinig yn anhrefnus, gan gynnwys hen daflenni archebu a oedd wedi'u gadael ar ben yr oergell feddyginiaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd amgylchol yr ystafell clinig yn cael ei fesur a bod trefniadau ar waith ar gyfer cymryd camau priodol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o'r stoc o Gyffuriau a Reolir hylifol yn galluogi'r staff i nodi unrhyw feddyginiaeth na ellir rhoi cyfrif amdani yn brydlon.

⁶ Mesur sy'n defnyddio taldra a phwysau unigolyn i gyfrifo a yw ei bwysau yn iach yw mynegai mas y corff (BMI). Mae BMI yn ystyried amrywiadau naturiol mewn siâp cyrff, gan roi ystod pwysau iach ar gyfer taldra penodol.

⁷ Rhoddir meddyginiaeth PRN yn ôl yr angen o gymharu â meddyginiaeth a roddir yn rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei bolisi meddyginiaeth gudd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl y gofyn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad o'r ystafell clinig ar waith.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae angen gwella cofnodion clinigol a'r broses o gadw cofnodion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu yn cael ei dogfennu'n glir a'i monitro. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi ei gamau gweithredu yn Atodiadau B ac C.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal unigol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd systemau a threfniadau llywodraethu ar waith er mwyn galluogi'r staff i roi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r ffordd y caiff cofnodion clinigol eu cwblhau er mwyn dangos manylion y gofal sy'n cael ei ddarparu ac adolygiadau dilynol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod polisiâu yn cael eu hadolygu a'u bod yn gyfredol er mwyn llywio ymarfer proffesiynol y staff.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi ei gamau gweithredu yn Atodiadau B ac C.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cynnwys cyfuniad o ddogfennau papur ac electronig. Roedd y cofnodion papur a ddefnyddiwyd gan y staff yn cynnwys copiâu o'r dogfennau electronig. Er bod y cofnodion papur wedi'u trefnu'n dda, nid oeddent bob amser yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a storiwyd yn electronig. Felly, ni allem fod yn sicr y byddai'r staff yn cyfeirio at y fersiynau cywir. Gwelsom hefyd nad oedd copiâu o gofnodion DATIX yn cael eu cynnwys yng nghofnodion cleifion bob amser.

Roedd hyn yn golygu, mewn rhai achosion, fod cofnodion cleifion wedi'u gwasgaru ar draws nifer o systemau, a allai arwain at gofnod anghyflawn yn cael ei drosglwyddo gyda'r claf wrth iddo gael ei drosglwyddo neu ei ryddhau o'r ward.

Roedd y staff yn cadw cofnodion ffeithiol ond nid oedd y cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn cynnwys digon o fanylion i roi gwybodaeth glir am ofal pob claf. Nid oedd rhai cofnodion o rowndiau ward yn cynnwys digon o fanylion ychwaith ac nid oeddent yn darparu cofnod clir o drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch gofal y claf unigol.

Roedd enghreifftiau hefyd lle nad oedd cofnodion gofal cleifion yn adlewyrchu'n gywir y gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r claf a/neu'n dogfennu'r gofal yn ddigon manwl i'w adolygu. Ymdrinnir yn fanylach â hyn yn adran nesaf yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys dogfennaeth gyfredol ynghylch gofal y claf.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr hyn a gofnodir gan y staff yng nghofnodion cleifion, gan gynnwys adolygiadau, yn ddigon manwl.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal a thriniaeth tri chlaf i gyd ar Ward 7.

Roedd cofnodion cleifion yn cynnwys asesiad cyfredol o iechyd corfforol cyffredinol wedi'i gwblhau'n llawn a dogfennau monitro safonol fel NEWS⁸ a MUST⁹. Roedd asesiadau safonol hefyd yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol,

⁸ Canllaw a ddefnyddir gan wasanaethau meddygol i bennu difrifoldeb salwch claf yn gyflym yw'r Sgoriau Rhybuddio Cynnar Cenedlaethol. Mae'n seiliedig ar arwyddion hanfodol fel cyfradd resbiradu, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, ymateb AVPU (effro, llafar, poen, anymatebol).

⁹ Adnodd sgrinio pum cam yw MUST (Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad) sy'n nodi oedolion sy'n dioddef o ddiffyg maeth, sydd mewn perygl o ddioddef o ddiffyg maeth neu sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

a oedd yn cynnwys asesiadau risg sgôr briwiau pwysu ac asesiadau o'r risg o gwmpo.

Roedd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion ac roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru. Fodd bynnag, nid oedd pob rhan berthnasol o'r cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau¹⁰.

Roedd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o anghenion a gofal cleifion unigol ac roedd tîm amlddisgyblaethol yn cynnal rowndiau ward wythnosol ac yn adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cofnodion o rowndiau ward a chynlluniau gofal a thriniaeth yn gryno ac nid oeddent yn cynnwys digon o fanylion ynghylch unrhyw newidiadau yng nghyflwr y claf na'i anghenion gofal.

Roedd anghysondeb hefyd rhwng cyfnodau adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion gwahanol. Er y dylai adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth gael eu harwain gan anghenion y claf a'u cynnal mor aml ag sydd ei angen, h.y. pan fo unrhyw newidiadau sylweddol yn iechyd y claf perthnasol, ei anghenion cymdeithasol neu'r risgiau a nodwyd, ni ddylai fod cyfnodau adolygu gwahanol ar gyfer y cleifion ar y ward.

Nodwyd bod y defnydd o het ddiogelu yn cael ei nodi o hyd yng nghynllun gofal a thriniaeth un o'r cleifion, er nad yw'n rhan o ofal y claf mwyach oherwydd y gofid yr oedd yn ei achosi iddo. Roedd adolygiad wedi'i gwblhau ar ôl hynny ond nid oedd y defnydd o het wedi'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newid yn y gofal.

Roedd cynllun gofal ar waith ar gyfer claf yr oedd yn well ganddo gysgu mewn cadair, weithiau mewn ardal gymunedol yn hytrach na'i ystafell wely. Fodd

¹⁰ Paragraff 4.40, [Cod Ymarfer ar Rannau 2 a 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) "Wrth lunio cynllun gofal a thriniaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau, bydd angen yn gyntaf gael datganiad clir am y materion y mae angen ymdrin â hwy. Wedyn bydd y cydgysylltydd gofal a'r tîm gofal, ynghyd â'r claf perthnasol, yn cydweithio i nodi'r canlyniadau a ddymunir yn y tymor hir neu'r tymor byr, cytuno arnynt a'u disgrifio. Dyma'r canlyniadau a fyddai, o'u sicrhau, yn dangos bod y materion a nodwyd wedi'u datrys neu eu bod ar y trywydd iawn i gael eu datrys. Er mwyn llunio cynllun gofal a thriniaeth llawn ac ystyrlon sy'n seiliedig ar ganlyniadau bydd angen i'r cydgysylltydd gofal, y tîm gofal a'r claf perthnasol gydweithio i nodi cerrig milltir realistig, mesuradwy a chyraeddadwy y gellir eu nodi a chytuno arnynt er mwyn sicrhau pob canlyniad. Gall hyn hybu'r agwedd gadarnhaol o adeiladu ar lwyddiant."

bynag, nid oedd nodiadau'r claf yn nodi'n glir ymhle roedd y claf yn cysgu a ph'un a oedd yn gwneud hynny yn ei ystafell wely neu mewn ardal gymunedol. Nid oeddent ychwaith yn nodi'r camau a oedd wedi'u cymryd i annog y claf i gysgu yn ei ystafell wely er mwyn helpu i gynnal ei breifatrwydd.

Ar gyfer claf arall, roedd cynllun gofal cyfredol ar waith ar gyfer defnyddio teclyn 'pelvic positioner'¹¹. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y claf yn nodi pryd y câi'r teclyn ei ddefnyddio ac am ba hyd. Mae hyn yn golygu nad oedd unrhyw gofnod clir o pryd roedd y teclyn yn cael ei ddefnyddio na sut y gallai'r amllder a'r effeithiolrwydd gael eu monitro a'u hadolygu gan y tîm amlddisgyblaethol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodau cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol yn cwblhau cofnodion manwl o rowndiau ward ac adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu'n gywir newidiadau yng ngofal y claf a bod anghenion etifeddol yn cael eu nodi'n glir.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y defnydd o ddyfeisiau cyfyngol neu gymhorthion yn cael ei ddogfennu'n glir yng nghofnodion cleifion er mwyn sicrhau y gellir monitro ac adolygu'r defnydd ohonynt yn glir.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Edrychwyd ar gofnodion saith claf a nodwyd fel cleifion sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Roedd pob un o'r cofnodion yn dangos bod y staff wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu

¹¹ Mae'r teclyn hwn yn cefnogi claf sy'n eistedd a gellir ei ddefnyddio i helpu i leihau'r risg o gwmpo.

o Ryddid, a bod y rhain ar waith. Roedd yn amlwg bod y broses yn cael ei chymhwyso'n briodol.

Roedd tystiolaeth y gallai'r cleifion gael gafael ar wasanaethau eirioli a, lle y bo'n briodol, fod y staff yn atgyfeirio'r claf i wasanaethau eirioli.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw un o'r cleifion ar Ward 7 yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd arweinyddiaeth gydwybodol, gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant a oedd yn darparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Yn ogystal, roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr.

Fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar Ward 7 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gefnogi'r cleifion yn ddiogel 24 awr y dydd gyda gofal a chymorth hanfodol a mewnbwn therapiwtig.

Nodwyd hefyd fod canfyddiadau arolygiadau eraill yn y bwrdd iechyd yn cael eu hailadrodd yn Ysbyty Cwm Cynon. Mae hyn yn dangos nad yw'r bwrdd iechyd yn rhannu gwersi i'w dysgu o ganlyniadau arolygiadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan reolwr y ward a'r tîm uwch-reolwyr. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion unigol i safonau uchel.

Roedd systemau a phrosesau diffiniedig ar waith er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd a'r ward yn rheoli eu gwasanaeth. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu. Fodd bynnag,

gwelsom fod angen gwella'r ffordd y mae cofnodion clinigol yn cael eu cadw ac felly mae angen gwreiddio trefniadau i fonitro'r meysydd hyn er mwyn sicrhau bod safonau cadw cofnodion digonol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi ei gamau gweithredu yn Atodiadau B ac C.

Fel y nodwyd yn ein Harolygiad Iechyd Meddwl diwethaf o Ysbyty Brenhinol Morgannwg¹² ym mis Gorffennaf 2019, roedd amrywiaeth fawr o bolisiâu a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad adolygu. Mae cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd wedi gweithredu ar yr adolygiad ac wedi diweddarau polisiâu perthnasol. Er bod rhestr flaenoriaeth wedi'i datblygu, mae'r broses o adolygu a diweddarau polisiâu yn mynd rhagddi o hyd sy'n golygu na allem fod yn sicr bod y staff yn cael yr arweiniad diweddaraf i lywio eu hymarfer proffesiynol.

Rydym hefyd yn pryderu bod rhai o'r meysydd gwella a nodwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mis Gorffennaf 2019, megis rheoli meddyginiaeth a chofnodion clinigol, wedi'u nodi eto yn ystod yr arolygiad hwn. Mae hyn yn dangos nad yw'r gwersi a ddysgwyd o arolygiadau eraill wedi'u rhannu o fewn ei fwrdd iechyd ei hun ac, o ganlyniad, mae'r un materion wedi'u nodi yn ystod yr arolygiad hwn.

Drwy gydol yr arolygiad, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu'n agored ac yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen adolygu polisiâu yn cael ei hymgorffori.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i rannu'r gwersi sy'n deillio o weithgarwch arolygu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

¹² Mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg, sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Llantrisant, De Cymru, hefyd yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae gan y gwasanaeth cleifion mewnol Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ddwy ward rhyw gymysg ac mae gan y gwasanaeth cleifion mewnol Iechyd Meddwl i Oedolion bedair ward rhyw gymysg.

<https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-10/191014royalqlamorganen.pdf>

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd strwythur sefydliadol ar gyfer staff y ward fel rhan o wasanaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd.

Roedd gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn y bwrdd iechyd wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar gyda Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl¹³ yn cael ei symud i ddod yn rhan o Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon. Ar adeg yr arolygiad, roedd y lefelau staffio ar Ward 7 bron yn llawn; roedd tua 0.75 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn ar gyfer nyrsys cofrestredig. Dywedwyd wrthym fod hyn o ganlyniad i staff yn symud ymlaen i rolau eraill fel rhan o'u datblygiad gyrfa.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff y ward y gwnaethom siarad â nhw wedi cadarnhau bod y ddwy set o staff o Ward 7 a Ward 35 wedi dod at ei gilydd fel fîm agos a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi gan reolwr y ward a dirprwy reolwr y ward yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Os oedd prinder staff, h.y. oherwydd salwch neu am fod angen staff ychwanegol i ddiwallu anghenion cleifion, yna roedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Roedd hyn yn aml yn cynnwys staff o'r ward ei hun neu aelodau eraill o staff a oedd wedi gweithio yn yr ysbyty yn y gorffennol. Roedd hyn yn rhoi parhad gofal i'r cleifion a'r ysbyty.

Gwnaethom edrych ar y lefelau staffio a'r trefniadau a oedd ar waith i'w haddasu er mwyn adlewyrchu anghenion y ward. Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion. Fodd bynnag, wrth arsylwi ar y trefniadau ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom nad oedd y staff yn gallu diwallu anghenion cymorth ac arsylwi'r grŵp cleifion yn ddigonol. Ar ddau achlysur, gwelsom fod un aelod o'r staff wedi cael ei adael yn lolfa'r ward i arsylwi

¹³ Roedd Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn darparu gwasanaeth cleifion mewnol Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ym Merthyr Tudful, De Cymru.

ar ddau glaf a oedd yn destun Arsyllwadau Lefel 4¹⁴ gan fod angen i'r aelodau eraill o'r staff helpu claf arall i baratoi i fynd i'r gwely.

Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom ddadansoddi'r rotâu ar gyfer y pedair wythnos flaenorol a nododd fod sifft gyfnos sefydledig yr oedd ond wedi cael ei staffio deirgwaith. Eglurodd y bwrdd iechyd, wrth ymateb i'r broses sicrwydd uniongyrchol, nad oedd sifft gyfnos sefydledig ac mai camgymeriad ar y system roster oedd hwn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Fodd bynnag, o ystyried ein harsyllwadau a'r sgysiau dilynol a gafwyd â'r staff, a fynegodd rhai pryderon ynghylch y gallu i reoli gwaith arferol ar y ward gyda'r nos, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth bellach i'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar y ward. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i ymgymryd â'r lefel arsylwi a chymorth ychwanegol sydd eu hangen ar y ward, ac ni ddylai unrhyw aelod o'r staff, ar unrhyw adeg, orfod ymgymryd ag Arsyllwadau Lefel 4 ar gyfer dau glaf ar yr un pryd.

Hefyd, er bod Ward 7 wedi'i lleoli yn Ysbyty Cwm Cynon, hon yw'r unig ward sy'n gofalu am gleifion ag anghenion iechyd meddwl yn y lleoliad hwn. O ganlyniad, hon yw'r unig ward sy'n cael ei staffio gan gyflogeion sydd â phrofiad o ddarparu'r gofal hwn ac felly gellir ystyried ei bod wedi'i hynysu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol gyda'r hwyr a thrwy gydol y nos pan mae llai o staff ar y ward, a phan nad yw'r uwch-aelodau o staff iechyd meddwl na'r staff iechyd meddwl cymunedol sy'n gweithio yn yr ysbyty yn bresennol fel arfer.

Er i ni weld bod y staff yn cynnwys y cleifion mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau bywyd beunyddiol fel gofal personol a phrydau, gallai'r adnoddau ar y ward gael eu defnyddio'n well a'u datblygu ymhellach er mwyn gwella gofal cleifion. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu trefniadau staffio, gan gynnwys mewnbwn therapyddion galwedigaethol, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau i gefnogi'r cleifion a'u cynnwys mewn gweithgareddau ystyrion.

Roedd strwythur goruchwyllo ar waith ac roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac adolygiadau datblygu. Roedd y wybodaeth hyfforddiant

¹⁴ Mae Arsyllwadau Lefel 4 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gofyn bod un claf yn cael ei arsylwi gan un aelod dynodedig o'r staff, y cyfeirir atynt yn aml fel cyswllt un i un.

a ddarparwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac er mai 76% oedd y ganran gydymffurfiaeth gyfredol o ran hyfforddiant gorfodol, rhoddodd yr uwch-reolwyr sicrwydd bod strategaeth ar waith i wella'r gyfradd gydymffurfio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar Ward 7 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gefnogi'r cleifion yn ddiogel 24 awr y dydd gyda gofal a chymorth hanfodol a mewnbwn therapiwtig.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Sil seddi concriid wedi'i amlygu ar ôl i'r gorchudd meddal gael ei symud	Risg o niwed i'r claf	Wedi'i godi gydag uwch-reolwr	Adran ystadau'r bwrdd iechyd wedi cwblhau'r gwaith o gael gwared ar yr ymyl miniog.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Cwm Cynon

Ward: Ward 7

Dyddiad arolygu: 13 – 15 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhoi gofal diogel ac effeithiol				
<u>Canfyddiad – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol / Cadw Cofnodion</u>				
<p>Ystyriodd y tîm arolygu y wybodaeth a nodwyd yng nghofnodion gofal y cleifion ar Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon.</p> <p>Edrychwyd ar y cofnodion gofal ar gyfer claf xxxx a chofnod nyrsio a wnaed ar xxxx a nododd "Clais ar y boch chwith wrth ymyl llinell yr ên - nid yw'r rheswm yn hysbys. Fe'i gwelwyd ar ddechrau'r sifft gwaith."</p> <p>Roedd y claf yn cael gofal ac yn destun Arsylwadau Lefel 4 (1:1) pan wnaethpwyd y cofnod hwn a chyn hynny. Ni roddir unrhyw wybodaeth bellach yn nodiadau'r claf (gan gynnwys ar system cofnodi digwyddiadau DATIX y bwrdd iechyd) i ddangos y camau a gymerwyd ar ôl darganfod clais ar wyneb y claf i sicrhau na fyddai unrhyw anaf corfforol pellach iddo. Hefyd, ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad i'r ffaith nad oedd y rheswm dros y clais yn hysbys tra bod y claf yn derbyn gofal ac yn destun Arsylwadau Lefel 4.</p>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Felly, ni allwn fod yn sicr bod y gwiriadau iechyd corfforol gofynnol wedi'u cynnal ar ôl darganfod y clais, na bod adolygiad wedi'i gynnal ynghylch pam nad oedd y rheswm dros y clais yn hysbys pan oedd y claf yn destun Arsylwadau Lefel 4.</p> <p>Ni allwn fod yn sicr ychwaith bod y bwrdd iechyd yn dogfennu digwyddiadau o'r fath yn briodol ar DATIX er mwyn sicrhau adolygiad amserol o ddigwyddiadau unigol a phroses barhaus o fonitro ac adolygu digwyddiadau o'r fath.</p> <p>Hefyd, dim ond y manylion uchod a nodir yng nghofnodion y claf, nid oes unrhyw ddisgrifiad manwl o faint y clais, map o'r corff a/neu ffotograff. Felly, ni allwn fod yn sicr bod y staff yn cofnodi gwybodaeth yn ddigon manwl yng nghofnodion cleifion.</p>				
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad corfforol o glaf xxxx yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw broblemau meddygol nas nodwyd yn dilyn yr anaf hwn a bod y gofal gofynnol yn cael ei ddarparu.</p>	<p>Safon 3.1</p>	<p>Cwblhawyd archwiliad meddygol ar XX/01/20 gan feddyg y ward. Nodwyd bod y claf yn tueddu i gael cleisiau a marciau ar y croen oherwydd defnydd hirdymor o hufen steroid. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw arwydd o unrhyw gyflwr arall ac nad oedd angen cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach.</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rheswm dros y clais a rhoi sicrwydd bod Arsyllwadau Lefel 4 ar waith cyn i'r clais gael ei ddarganfod.</p>	Safon 3.1	<p>Nid yw'r rheswm dros y clais yn hysbys o hyd a, gan fod y clais wedi diflannu, byddai'n anodd nodi'r rheswm drosto.</p> <p>Gall y bwrdd iechyd gadarnhau bod arsyllwadau lefel 4 ar waith ar y pryd fel y'u rhagnodwyd. Mae'r bwrdd wedi adolygu'r siartiau arsylwi a gall gadarnhau bod arsyllwadau lefel 4 ar waith ar y pryd.</p>	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi ar DATIX fel bod digwyddiadau unigol yn cael eu hadolygu mewn modd amserol a bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.</p>	Safon 3.1 a 3.5	<p>Dylid atgoffa pob aelod o'r staff bod angen cofnodi unrhyw anaf newydd ar DATIX er mwyn hwyluso ymchwiliad iddo.</p> <p>Mae neges e-bost wedi'i hanfon at bob nyrs gofrestredig ac mae'r mater hwn hefyd wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr y gwasanaeth a'r ward. Caiff ei gofnodi yn y cofnodion.</p>	Uwch-nyrs	<p>Chwefror 2020</p> <p><i>(i gynnal cyfarfodydd ward. Neges e-bost wedi'i hanfon)</i></p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cofrestru archwiliad â'r pwyllgor archwilio ac yn profi cydymffurfiaeth yn y maes hwn ymhen 6 mis.		Gorffennaf 2020
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi unrhyw anafiadau i gleifion yn fanwl.</p>	Safon 3.5	<p>Caiff pob aelod o'r staff ei atgoffa bod yn rhaid cofnodi unrhyw anaf newydd yn fanwl a chynnwys map o'r corff.</p> <p>Mae neges e-bost wedi'i hanfon at bob Nyrs Gofrestredig ac mae'r mater hwn hefyd wedi'i gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod arweinwyr y gwasanaeth a chyfarfod y ward. Caiff ei gofnodi yn y cofnodion.</p> <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cofrestru archwiliad â'r pwyllgor archwilio ac yn profi cydymffurfiaeth yn y maes hwn ymhen 6 mis.</p>	Uwch-nyrs	<p>Chwefror 2020 (<i>i gynnal cyfarfodydd ward.</i></p> <p><i>Neges e-bost wedi'i hanfon)</i></p> <p>Gorffennaf 2020</p>
<u>Canfyddiad - Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol / Rheoli Risg a Hyrwyddo Iechyd a Diogelwch</u>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Wrth i ni arsylwi ar y trefniadau ar noson 13 Ionawr 2020, gwelsom nad oedd y staff yn gallu diwallu anghenion cymorth ac arsylwi'r grŵp cleifion yn ddigonol. Ar ddau achlysur, gwelsom fod un aelod o'r staff wedi cael ei adael yn lolfa'r ward i arsylwi ar ddau glaf a oedd yn destun Arsyllwadau Lefel 4 (1:1) gan fod angen i'r aelodau eraill o'r staff helpu claf arall i baratoi i fynd i'r gwely.</p> <p>Mae'r rotâu staff yn dangos nad oedd un cynorthwydd gofal iechyd yn gweithio'r sifft gyfnos ar gyfer 13 Ionawr. Pe bai rhywun yn gweithio'r sifft hon, byddai'r staff wedi cael help i ddiwallu anghenion cymorth ac arsylwi'r grŵp cleifion yn ddigonol. Mae copiâu o'r rotâu ar gyfer y pedair wythnos flaenorol yn dangos mai dim ond ar dri achlysur yr oedd y sifft gyfnos wedi'i chael ei staffio'n llawn. Felly, ni allwn fod yn sicr bod digon o staff yn gweithio ar y ward i gefnogi trefniadau gyda'r nos.</p>				
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar y ward i ddiwallu anghenion cymorth ac arsylwi'r grŵp cleifion yn ddigonol.</p>	<p>Safonau 2.1 a 3.1</p>	<p>Mae'r gwasanaeth wedi adolygu'r trefniadau oddi ar ddyletswydd ac wedi cadarnhau bod pob sifft yn cael ei llenwi.</p> <p>Nid oes unrhyw sifft gyfnos ar y ward. Camgymeriad ar y roster oedd hwn ac mae wedi cael ei gywiro. Roedd sifft gyfnos oherwydd anghenion claf penodol hyd at fis Rhagfyr 2019 ond sifft gyflenwi ychwanegol oedd hon nid sifft sefydledig a dylai fod wedi cael ei dileu.</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Canfyddiad – Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig</u></p>				
<p>Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer gwirio diogelwch offer trydanol cludadwy ar Ward 7.</p> <p>Roedd dyddiadau Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) nifer mawr o eitemau trydanol cludadwy wedi mynd heibio. Nododd yr Asesiad Risg Tân, a gwblhawyd ym mis Hydref 2019, fod angen i Bennaeth Ystadau'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â hyn "cyn gynted ag y bo'n ymarferol rhesymol". Nid yw wedi gwneud hynny hyd yn hyn. Felly, ni allwn fod yn sicr bod yr holl offer trydanol ar Ward 7 yn ddiogel i'w ddefnyddio ac, ar hyn o bryd, mae risg y gallai rhai ohonynt achosi tân. Mae hyn yn risg ddiogelwch i'r cleifion, y staff a'r bobl eraill ar Ward 7 ac yn yr ysbyty.</p>				
<p>Yr hyn sydd angen ei wella</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer trydanol cludadwy ar Ward 7 yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p>		<p>Mae'r broses o brofi'r holl offer wedi'i huwchgyfeirio a'i chwblhau ar 22/01/2020</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod profion PAT wedi'u cynnal ar bob un o'n safleoedd er mwyn sicrhau na</p>		<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		fyddwn yn wynebu problemau tebyg ym mhob rhan o'r gwasanaeth.		

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Cwm Cynon

Ward: Ward 7

Dyddiad arolygu: 13 – 15 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am gleifion unigol yn cael ei chasglu a'i defnyddio er mwyn helpu'r staff i ymgysylltu â'r cleifion drwy hel atgofion ar sail strwythuredig ac ad-hoc.	4.1 Gofal ag Urddas	Caiff ffurflenni "Dyma fi" eu cwblhau gan y Nyrs/Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Enwebedig cyfrifol ar gyfer pob claf pan gaiff ei dderbyn. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â thîm y ward er mwyn personoli gweithgareddau. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy sesiynau 1:1 y staff. Caiff y gwaith ei archwilio'n fisol er mwyn sicrhau bod yr arfer hon yn cael ei chynnal, ac er mwyn sicrhau ansawdd y	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wybodaeth a chyfranogiad y teulu/gofalwr		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu amgylchedd y ward ymhellach er mwyn helpu'r cleifion i hel atgofion.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae gan Ward 7 amrywiaeth o gyfarpar yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu gyda gweithgareddau h.y. system RITA, ystafell synhwyr (a ddatblygwyd gan yr adran Therapi Galwedigaethol), blwch atgofion, dewis o gemau ac ati. Ers yr ymweliad, rydym hefyd wedi ailgyflwyno therapi anifeiliaid anwes. Yr Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward a'r adran Therapi Galwedigaethol i ddiweddarau'r gweithgareddau dyddiol ar y ward	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion a chymhorthion priodol sy'n ystyriol o ddementia ar y ward.	4.1 Gofal ag Urddas 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae arwyddion darluniadol newydd wedi'u gosod ym mhob un o'r ystafelloedd i gleifion/ymwelwyr o 19 Chwefror 2020. Erbyn hyn, mae geiriau (dwyieithog) a lluniau ym mhob un o'r ystafelloedd i gleifion/ymwelwyr. Ceir hefyd amrywiaeth o seddi yng nghoridorau'r ward a'r lolfeydd, yn unol ag adnodd archwilio'r Kings Fund sy'n ystyriol o ddementia.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau ar y ward er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r grŵp cleifion.	4.1 Gofal ag Urddas	Yr Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward a'r adran Therapi Galwedigaethol i ddiweddarau'r gweithgareddau dyddiol ar y ward	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau o ran darparu gweithgareddau ad-hoc i'r cleifion ac ymgysylltu â nhw.	4.1 Gofal ag Urddas	Caiff Therapydd Galwedigaethol band 6 rhan amser newydd ei recriwtio, a fydd yn helpu'r staff i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.	Rheolwr y Ward, Therapi Galwedigaethol	31 Mai 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhoi mwy o help i'r cleifion adnabod eu hystafell wely eu hunain.	4.1 Gofal ag Urddas	Nodir enw pob claf ar ddrws ei ystafell wely. Pan gânt eu derbyn, caiff y cleifion eu cynnwys (os yw'n briodol) yn y broses o wneud arwydd ar gyfer eu hystafell eu hunain yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain. Caiff pob un o'r cleifion a'r gofalmwr eu hannog i ddod ag eitemau personol gyda nhw i bersonoli'r lle.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau, gan gynnwys:	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Hysbysfyrdau newydd wedi'u gosod yn y coridor mynediad sy'n dangos lleoliad y blwch dweud eich dweud, gwybodaeth am Gweithio i Wella, y Ddeddf Iechyd	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Sut i roi adborth ar y gwasanaeth, gan gynnwys proses Gweithio i Wella y GIG Arweiniad ar ddeddfwriaeth berthnasol fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 		Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gwybodaeth gyswllt AGIC.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn helpu i feithrin dealltwriaeth ymhlith rhai cleifion neu aelodau o'r teulu.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Hysbysfwrdd newydd wedi'i osod yn y coridor mynediad, mae'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn cynnwys gwybodaeth i ymwelwyr a gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau cymunedol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cadarnhau manylion adnabod ymwelwyr cyn caniatáu iddynt gael mynediad i'r ward.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Bydd yr uwch-nyrs yn bresennol ar rai adegau trosglwyddo er	Uwch-nyrs	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar y ward		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwneud yn siŵr bod ardaloedd nad ydynt yn agored i gleifion yn cael eu cadw dan glo.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Caiff yr arfer ei monitro gan Reolwr y Ward.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rheswm dros ail-leoli gwelyau yn cael ei ddogfennu'n glir.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Bydd yr Uwch-nyrs yn adolygu cofnodion os bydd, ar ei rowndiau pwrpasol, yn nodi bod gwelyau wedi'u hail-leoli, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau, pan na fydd claf yn gallu defnyddio cloch galw nyrs yn ei ystafell wely, fod cynllun gofal ar waith sy'n nodi'n glir y trefniadau sydd ar waith i fonitro'r claf yn ei ystafell wely.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mater hwn. Bydd y broses hon yn cael ei harchwilio'n fisol.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r systemau sydd ar waith sy'n galluogi'r cleifion i alw am gymorth o'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ac nad ydynt yn peri risg o hunan-niwed.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Erbyn hyn, mae'r holl gortynnau tynnu ar gyfer y system galw nyrs yn eu lle	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gorchudd seddi meddal yn cael ei roi'n ôl ar yr ardal eistedd.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae seddi meddal newydd wedi'u darparu.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddyfeisiau diogelu bysedd a ddefnyddir ar y drysau yn gyfan.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae dyfeisiau diogelu newydd wedi'u harchebu a byddant yn cael eu gosod pan fyddant yn cyrraedd. Yr Uwch-nyrs i weithio gyda'r staff i sicrhau bod y broses o uwchgyfeirio materion ystadau yn cael ei hymgorffori ar y ward gan fod proses glir ar waith ar gyfer hyn yn barod.	Uwch-nyrs, Goruchwyliwr Ystadau	31 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio'r difrod i'r wal yn yr ystafell gawod i ddyinion.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau gan yr adran Ystadau	Uwch-nyrs, Goruchwyliwr Ystadau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o fannau storio ar gael ar y ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Ar hyn o bryd, mae pum ystafell storio ar y ward, sy'n ddigonol ar gyfer y stoc gyfredol. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'r holl ardaloedd storio dynodedig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol angenrheidiol ar gael ym mhob ardal berthnasol o'r ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae gorsafoedd ffedogau a menig wedi'u lleoli ar y ward. Mae ffedogau a menig yn cael eu storio hefyd ym mhob ardal berthnasol o'r ward gan gynnwys yr ystafelloedd ymolchi, y toiledau a'r ardal fwyta.	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion atal a rheoli heintiau ym mhob ardal berthnasol o'r ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae arwyddion newydd mewn perthynas â gwaredu offer miniog a hylendid dwylo wedi'u gosod.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried pa gymhorthion y gellir eu defnyddio i helpu'r cleifion gyda'u dewisiadau bwyd.	2.5 Maeth a Hydradu	Mae ateb TG Arlwyo Cymru Gyfan wrthi'n cael ei gyflwyno. Bydd hyn yn caniatáu i Gynorthwywyr Arlwyo gymryd	Uwch-nyrs	31 Mai 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	archebion cleifion ar ddyfeisiau iPad a bydd lluniau o bob un o'r prydau sydd ar gael ar sgrin iPad yr arlwywyr. Yn y cyfamser, mae'r Uned Iechyd Meddwl yn treialu adnodd/ap ar gyfer cleifion sy'n byw gyda dementia. Caiff y treial, sydd wedi'i gymeradwyo gan Adran Ymchwil a Datblygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ei gyflwyno nawr ar Ward 7.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd amgylchol yr ystafell clinig yn cael ei fesur a bod trefniadau ar waith ar gyfer cymryd camau priodol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae dyfeisiau ar gyfer monitro tymheredd yr ystafell ac uned aerdymheru wedi'u gosod. Caiff tymheredd yr ystafell ei fonitro a'i gofnodi'n ddyddiol a chaiff gweithdrefnau monitro newydd eu hychwanegu at wiriadau dyddiol y staff. I'w archwilio'n fisol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Chwefror 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o'r stoc o Gyffuriau a Reolir hylifol yn galluogi'r staff i nodi unrhyw feddyginiaeth na ellir rhoi cyfrif amdani yn brydlon.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae'r adran Rheoli Meddyginiaethau wedi cynghori na ddylid newid yr arfer gyfredol o amcangyfrif cyfaint gan ddefnyddio lefel yr hylif a'r cyfaint a nodir	Fferyllfa	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ar y botel. Mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar y risgiau cydnabyddedig canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall arllwys y cynnwys allan ac yna'i ddychwelyd i botel beri risg y gallai gael ei ddychwelyd yn anfwriadol i'r cynhwysydd anghywir. Gallai'r hylif hwnnw hefyd gael ei halogi • Bydd y broses o arllwys y cynnwys dro ar ôl tro yn cynyddu amlygiad yr hylif i aer a golau • Bydd y broses o arllwys y cynnwys dro ar ôl tro yn golygu y caiff hylif ei golli. Gall y swm hwnnw fod yn sylweddol dros amser 		
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei bolisi meddyginiaeth gudd yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Mae hyn wedi'i drafod â'r fferyllfa a chaiff y polisi ei adolygu dan arweiniad y fferyllfa gyda mewnbwn iechyd meddwl.</p> <p>Yn y cyfamser, y cyngor yw y dylid parhau i ddilyn y polisi presennol tra ei fod yn cael ei adolygu.</p>	<p>Fferyllfa</p>	<p>31 Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad o'r ystafell clinig ar waith.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae archwiliad o'r ystafell clinig ar waith	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys dogfennaeth gyfredol ynghylch gofal y claf.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Caiff safon y ddogfennaeth ei hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Ward a'r Uwch-nyrs.	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr hyn a gofnodir gan y staff yng nghofnodion cleifion, gan gynnwys adolygiadau, yn ddigon manwl.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Caiff safon y ddogfennaeth ei hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Ward a'r Uwch-nyrs.	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodau'r cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.5 Cadw cofnodion	<p>ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn.</p> <p>Bydd yr arweinydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth yn archwilio cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod tystiolaeth glir eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Caiff canlyniadau'r gwaith archwilio eu defnyddio i helpu'r staff i ddatblygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ymhellach.</p>		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol yn cwblhau cofnodion manwl o rowndiau ward ac adolygiadau o gynlluniau gofal a thriniaeth.	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</p> <p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn.</p> <p>Caiff safon y ddogfennaeth ei hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Ward a'r Uwch-nyrs.</p>	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward, Arweinydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu'n gywir newidiadau yng ngofal y claf a bod anghenion etifeddol yn cael eu nodi'n glir.	<p>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</p>	Bydd yr arweinydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth yn archwilio effeithiolrwydd cynlluniau gofal. Caiff canlyniadau'r	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	30 Ebrill 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	3.5 Cadw cofnodion	archwiliad eu defnyddio i ddatblygu hyfforddiant staff ymhellach		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y defnydd o ddyfeisiau cyfyngol neu gymhorthion yn cael ei ddogfennu'n glir yng nghofnodion cleifion er mwyn sicrhau y gellir monitro ac adolygu'r defnydd ohonynt yn glir.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 3.5 Cadw cofnodion	Mae'r ward wedi mabwysiadu'r briff diogelwch a ddatblygwyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a chaiff y briff hwn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r staff ar y mater hwn. Bydd adolygiad o hyn yn rhan o'r archwiliad misol o'r ward.	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen adolygu polisiau yn cael ei hymgorffori.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae cyfarfod Polisi/Proses yn cael ei gynnal i adolygu'r holl bolisiau. Caiff ei reoli ar hyn o bryd drwy'r broses Llywodraethu Clinigol a'r swyddog Llywodraethu Clinigol. Mae asesiad o bolisiau â blaenoriaeth wedi'i gynnal ac mae'r holl bolisiau wedi'u nodi yn nhermau Coch/Oren/Gwyrdd. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio drwy'r rhestr a'r amserlen gyffredinol ar gyfer gwneud hyn yw 24 mis.	Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Yn y cyfamser, mae wardiau yn dilyn y polisiau presennol		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i rannu'r gwersi sy'n deillio o weithgarwch arolygu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Caiff yr holl wersi a ddysgir o arolygiadau AGIW eu rhannu yng nghyfarfodydd arweinwyr gwasanaeth a'u cofnodi'n briodol.</p> <p>Mae gan bob un o'r tri lleoliad fforwm ar gyfer rhannu dysgu a fforwm ar lefel y Gyfarwyddiaeth lle y caiff y gwersi a ddysgir eu rhannu ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi sefydlu digwyddiad dysgu amlbroffesiynol chwarterol ar gyfer rhannu gwersi allweddol ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth ac ym mhob proffesiwn.</p>	Pennaeth Nyrsio, Uwch-nyrs	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau ar Ward 7 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gefnogi'r cleifion yn ddiogel 24 awr y dydd gyda gofal a chymorth hanfodol a mewnbwn therapiwtig.	7.1 Y Gweithlu	Mae adolygiad o'r lefelau staffio ar Ward 7 yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu diwallu anghenion y cleifion/teuluoedd 24 awr y dydd. Mae'r adolygiad hefyd yn cael ei gwblhau yn unol â'r 10 egwyddor a nodir yn "Neddf	Pennaeth Nyrsio	31 Mai 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Staffio Cymru" a chaiff ei fesur yn ei herbyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.	7.1 Y Gweithlu	Ar hyn o bryd, mae gan Ward 7 gyfradd gydymffurfio o 75% o ran hyfforddiant gorfodol. Targed y bwrdd iechyd yw 85%. Mae'r Ward yn canolbwyntio ar gydymffurfio â hyn erbyn mis Mehefin 2020.	Uwch-nysr, Rheolwr y Ward	30 Mehefin 2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alan Lawrie

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Dyddiad: 28 Chwefror 2020